# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE**

**Ffôn:Tel: 07896964120** **cyngorybala@outlook.com**

***Y Maer:*** **Eifion Roberts** ***Mayor***

***Ar gyfer cysylltu â'r Maer a Chynghorwyr unigol, defnyddier cynghoryddbala@outlook.com***

## Gwysir Cynghorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala

## Nos Iau, 7/9/23 am 7.00pm o'r gloch

## Canolfan Henblas neu trwy gyfrwng Zoom

*Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor; gellir derbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc.*

1. **Croeso,** sylwadau'r Maer, derbyn ymddiheuriadau

2. **Buddiant:** Derbyn datganiadau buddiant

3. **Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/7/23

4. **Materion y Clerc/Cofnodion:**

   i. Cymdeithas Chwaraeon Penllyn (Clerc a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan)
   ii. Lleoli'r llyfrau o'r hen Banc Barclays
   iii. Drafft Rheolau Sefydlog (seiliedig ar fodelau SLCC a Un Llais Cymru)

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyn Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.

6. **Un Llais Cymru (Meirionnydd)** Derbyn Adroddiad y Maer

7. **Siarter 1324:** Trafodaeth ar y ffordd ymlaen

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyn adroddiadau

   i. Nadolig
   ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau, gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref
   iii. Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar
   iv. Is bwyllgor digwyddiadau a gwella adnoddau i drigolion Y Bala – rhaglen 4 mlynedd
   v. Bioamrywiaeth

vi. Cyllid

*9.* **Strategaeth Gyfathrebu:**

*i.* Creu grŵp WhatsApp
*ii.* Creu Rota Syrjeri misol
iii. Polisi a Rheolau ar gyfer Tudalen fb fel Hysbysfwrdd y Cyngor (CM)

*10.* **Materion Cynllunio**: (*Trafodir unrhyw geisiadau cynllunio a ddaw i law rhwng cyhoeddi'r Agenda â'r Cyfarfod)*

**NP5/53/58/5A** Addasiadau i dŷ gan gynnwys cyfuno fflat anecs gyda'r prif dŷ, gosod 4 ffenestr to yn y drychiad cefn, ehangu'r gromen cefn presennol, system EWI i waliau allanol a grisiau mynediad newydd Egryn, Heol Ffrydan, Bala. LL23 7RY

**NP5/53/490B** Adeiladu estyniad cefn deulawr a ffens terfyn 1.8m o uchder 1 Trem y Ffridd, Y Bala. LL23 7DG

**11. Materion Cyllid:**

i. Gohebiaeth y Rheolydd Pensiynau
**ii.** Ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
**iii.** Ystyried derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu
iv. Derbyn adroddiad am Gronfa'r Maer
v. Ystyried mater y Clerc

**12. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

i. Llythyr at y Maer gan y Clwb Badminton
ii. Cronfa Perchnogaeth Cymunedol – derbyn gwybodaeth fod y gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau
iii. Mabon ap Gwynfor: gwahoddiad i drafod darpariaeth deintyddol ar Teams 11/9/23 am 10.30
iv. Mabon ap Gwynfor: gohebiaeth am ddiogelwch yr A494
v. Cyngor Gwynedd: ystyried gohebiaeth am Erthygl 4, sef defnydd o dai preswyl (*ddim yn uniongyrchol berthnasol i ardal Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd*)
vi. Cyngor Gwynedd: derbyn gwybodaeth am feysydd parcio ardal Llyn Tegid.
vii. Cyngor Gwynedd : Tim Tacluso yn Y Bala 11-15 Medi
viii. Cyngor Gwynedd: Rhybuddion amrywiol am gau Heol y Castell a Heol Arennig yn yr hydref (ar gyfer gwaith)
ix. Un Llais Cymru: derbyn rhestr o hyfforddiant Medi a Hydref 2023
x. Gwahoddiad i Uwchgynhadledd Canol y Dref gan Dyfodol Rhuthun - DYDD MERCHER 20 MEDI '23
xi. Gwahoddiad i ddigwyddiad CWMPAS yn Rhuthun 27/9/23
xii. Parcio Heol y Castell (cefn) – cwyn
xiii. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman
xiv. Cais gan ymwelydd i glodfori staff y Ganolfan Hamdden (yn dilyn damwain)

13. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** derbyn adroddiad y cynrychiolwyr

14. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref (***mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc)*

***Lis Puw*** (Clerc)